



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Bro Elfed  
Neuadd Gymunedol Cynwyl Elfed  
Stryd y Meddyg  
Cynwyl Elfed  
Caerfyrddin  
SA33 6TR**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2014**

**gan**

**Dorothy Morris  
Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Ⓜ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/11/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Bro Elfed yn cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Cynwyl Elfed, ger Caerfyrddin.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy a thair oed am bedwar sesiwn yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 24 o blant fesul sesiwn. Ar hyn o bryd, mae 13 o blant ar y gofrestr ac y mae pump ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu. Mae'r pum plentyn yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith. Nid oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae pedwar aelod o staff. Maent yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau addas ym maes addysg a gofal plant bach. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Hydref 2008.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Medi 2014 a chan Estyn ym mis Mawrth 2009.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol y lleoliad</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r lleoliad</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- bod yr ymarferwyr yn darparu ystod eang o weithgareddau diddorol sy'n sicrhau ymrwymiad gweithredol y plant yn eu dysgu;
- bod yr addysgu da yn cynnig cyfleoedd pwrrpasol i'r plant weithio'n effeithiol mewn grwpiau ac yn annibynnol;
- bod gan yr ymarferwyr wybodaeth dda o ddatblygiad bob plentyn;
- bod y berthynas agos rhwng yr ymarferwyr a'r plant yn hyrwyddo amgylchedd dysgu hapus a phwrrpasol;
- bod y plant yn derbyn gofal a chymorth da sy'n cyfrannu'n effeithiol at eu lles a'u datblygiad; a
- bod yr amgylchedd dysgu yn lliwgar, deniadol a chynnes.

### Rhagolygon gwella

Mae gan y lleoliad ragolygon gwella da oherwydd:

- bod yr arweinydd yn cynnig arweiniad cadarn ac ymdeimlad clir o bwrrpas i waith y lleoliad;
- bod gwaith tîm effeithiol yn sicrhau darpariaeth bwrrpasol i'r plant;
- bod y pwyllgor rheoli yn ymgymryd â'i ddyletswyddau'n effeithlon;
- bod gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o brif gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w gwella;
- bod tystiolaeth o welliannau yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus; a
- bod y cydweithio da ag ystod o bartneriaethau yn cyfrannu'n adeiladol at les a datblygiad y plant.

## Argymhellion

- A1. Datblygu'r cyfleoedd i'r plant ddefnyddio eu medrau siarad Cymraeg yn fwy annibynnol
- A2. Cryfhau'r cyswllt rhwng hunanarfarnu a chynllunio i'r dyfodol trwy osod targedau penodol ar gyfer datblygu medrau'r plant
- A3. Ehangu'r cyflenwad o adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), a chynllunio i ddatblygu medrau'r plant yn fwy cyson

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Da

#### Profiadau dysgu: Da

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau diddorol ar draws y meysydd dysgu. Seilir y gweithgareddau ar gyfres o themâu sy'n addas i ystod oed a datblygiad y plant. Mae defnydd da o lyfrau stori, digwyddiadau tymhorol a syniadau'r plant fel symbyliad i'r gweithgareddau. Mae cynllunio tymor byr yn fanwl ac yn darparu arweiniad clir i'r dysgu a'r addysgu.

Caiff y cwricwlwm ei gyfoethogi'n briodol gan gyfraniad ymwelwyr a rhai ymweliadau. Fel rhan o'r thema ar anifeiliaid, er enghraifft, cafodd y plant brofiad gwerthfawr o arsylwi ar anifeiliaid ac adar yng nghwmni swyddog fferm antur. Mae ymweliad â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn cynorthwyo'r plant yn effeithiol i ddysgu mwy am blanhigion a byd natur.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant trwy'r profiadau dysgu a ddarperir. Cymraeg yw cyfrwng naturiol bywyd a gwaith y lleoliad. Yn ystod sesiynau grŵp, mae cyfleoedd da i'r plant wrando ar storïau, ymuno mewn caneuon a rhigymau, dysgu adnabod eu henwau a phrif lythrennau'r wyddor, a defnyddio eu medrau marcio. Er hyn, nid oes cyfleoedd digonol i'r plant ymarfer eu medrau llafar Cymraeg yn annibynnol.

Mae cyfleoedd da i blant gyfrif, adnabod a deall gwerth rhifau, dysgu am siapiau, a thrin arian yn eu chwarae. Mae'r cyfleoedd i'r plant gasglu gwybodaeth am ffrwythau, er enghraifft, a chyflwyno'u casgliadau ar ffurf graffiau syml yn cynnig her bwrpasol iddynt ymestyn eu medrau. Mae gweithgareddau addas i'r plant ymarfer eu medrau TGCh sylfaenol ond nid oes cynllunio digon manwl i hyrwyddo ac ymestyn eu medrau yn gyson.

Mae cyfleoedd pwrpasol i'r plant ymarfer eu medrau meddwl, datrys problemau a'u medrau ymchwilio trwy weithgareddau megis casglu ffrwythau'r hydref, eu cyfrif, a'u dosbarthu yn ôl maint a lliw.

Caiff y plant eu cyflwyno i draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen.

## **Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth sicr o'r Cyfnod Sylfaen a datblygiad plant. Gwnânt ddefnydd effeithiol o strategaethau gwahanol sy'n sicrhau ymrwymiad gweithredol y plant yn eu dysgu. Mae trefn glir i'r sesiynau dyddiol gyda chydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan yr ymarferwyr.

Mae'r gweithgareddau wedi eu paratoi yn drylwyr ac mae defnydd effeithiol o adnoddau priodol i gynorthwyo'r addysgu a'r dysgu. Yn ystod sesiwn stori, er enghraifft, mae'r defnydd dychmygus o ystod o adnoddau, megis llyfrau, teganau a lluniau, yn cynnal diddordeb y plant a'u hannog i gymryd rhan. Mae'r ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda ac yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu geirfa'r plant. Mae hyn yn hybu eu dealltwriaeth o eirfa ehangach yn effeithiol. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth sicr o bryd i ymyrryd yn chwarae'r plant. Maent yn eu cefnogi'n bwrpasol i weithio'n annibynnol ac i ddefnyddio eu medrau, megis eu medrau creadigol ac ymchwilio, yn hyderus.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda a defnyddiant weithdrefnau addas i asesu a chofnodi eu cynnydd. Maent yn arsylwi ar ymateb y plant yn gyson wrth iddynt ymwneud â'u gweithgareddau ac yn trafod a chofnodi unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol yn fanwl. Gwna'r arweinydd ddefnydd da o'r wybodaeth a gesglir i adnabod targedau personol i'r plant ac i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu fel unigolion ac fel grwpiau ehangach. Mae'r cofnodion manwl ar ddatblygiad y plant ar draws y meysydd dysgu yn cael eu diweddarau a'u defnyddio'n effeithiol ar gyfer monitro cynnydd pob plentyn.

Caiff rhieni eu hysbysu'n briodol am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol ac adroddiadau ysgrifenedig manwl. Mae ffurflenni trosglwyddo addas yn cael eu cwblhau ar gyfer yr ysgol gynradd.

## **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithredu fel cymuned hapus a gofalgarg. Mae ystod o bolisïau addas ar waith ac arferion dyddiol sefydledig sy'n diogelu a hyrwyddo lles plant yn briodol.

Mae profiadau perthnasol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn fodolau rôl da ac yn trin ei gilydd gyda pharch. Mae gweithgareddau dyddiol yn cael eu defnyddio'n bwrpasol i hybu gwerthoedd megis caredigrwydd, ystyried eraill a bod yn gwrtais. Mae profiadau, megis dathliadau diolchgarwch a'r Nadolig a dweud gweddi cyn byrbryd, yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad ysbrydol y plant. Mae sylw da i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r angen i helpu rhai llai ffodus trwy gasglu arian at achosion da.

Caiff ymwybyddiaeth y plant o'r byd ehangach ei ddatblygu'n addas drwy ddysgu am ddiwylliannau a dathliadau pobl eraill. Er enghraifft, mae defnydd da o ystod o weithgareddau crefft i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, pan mae angen. Mae llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol megis gwasanaethau gofal plant a therapyddion lleferydd.

Mae'r ymarferwyr yn cyfrannu'n effeithiol tuag at godi ymwybyddiaeth plant o fwyta'n iach a sefydlu ffordd iachus o fyw. Mae byrbrydau maethlon, sy'n cynnwys ystod o ffrwythau, llaeth a dŵr, ar gael i'r plant. Fel rhan o raglen 'Sgiliau Byw', mae defnydd pwrpasol o gyfraniad ymwelydd i sgwrsio gyda'r plant a dangos iddynt ystod o fwydydd iach.

Mae profiadau, megis tyfu a gofalu am blanhigion, ailgylchu a chompostio, yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw yn llwyddiannus.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r asesiadau risg a wneir yn rheolaidd wedi eu cofnodi'n drylwyr.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a ddarperir. Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn ymateb yn briodol.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr profiadol gyda chymwysterau addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Ac eithrio adnoddau TGCh, mae cyflenwad digonol o adnoddau i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

Mae'r adeilad yn cynnig cyfleusterau o ansawdd da. Mae defnydd effeithiol o'r gofod dysgu trwy drefnu ardaloedd o weithgareddau amrywiol o amgylch y neuadd. Mae'r arddangosfeydd lliwgar yn creu amgylchedd diddorol sy'n dathlu gwaith y plant. Mae'r ardal allanol fechan a mynediad i gae'r ysgol gynradd a'r ardaloedd allanol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i'r plant ymchwilio a chwarae. Mae'r adeilad yn lan a diogel.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

O dan arweiniad cadarn yr arweinydd, llwyddir i greu amgylchedd trefnus a phwrpasol i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd sefydlog sy'n seiliedig ar hyrwyddo datblygiad a lles pob plentyn. Maent yn deall eu rolau sydd yn arwain at greu gwaith tîm da. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu rhoi ar waith yn briodol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cynnig cymorth effeithiol i'r lleoliad. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth dda am y ddarpariaeth ac maent yn cyfathrebu'n gyson gyda rhieni drwy gyfarfodydd rheolaidd. Mae cadeirydd y pwyllgor yn ymweld â'r lleoliad i arsylwi ar y ddarpariaeth ac i drafod gyda'r arweinydd. Mae hyn yn cyfrannu'n adeiladol at y broses o adnabod anghenion a chynllunio gwelliannau.



Mae gan y lleoliad system addas ar gyfer gwerthuso gwaith yr ymarferwyr ac adnabod anghenion datblygiad proffesiynol pellach. Caiff hyn ei adlewyrchu'n briodol yn y rhaglen hyfforddiant a chymorth a ddarperir.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, hybu medrau llythrennedd a rhifedd y plant, a hyrwyddo bwyta'n iach.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda am brif gryfderau'r lleoliad ac o'r meysydd i'w datblygu. Mae'r arweinydd yn arfarnu'r ddarpariaeth yn gyson drwy arsylwi a chyd-drafod gyda'r ymarferwyr eraill. Mae'r lleoliad yn ceisio barn y plant, y rhieni, y pwyllgor rheoli ac asiantaethau perthnasol. Mae'r wybodaeth sy'n deillio o hyn yn cyfrannu'n adeiladol at y broses gwerthuso a chynllunio i'r dyfodol.

Mae gweithdrefnau cynllunio ar gyfer gwella wedi'i sefydlu'n briodol. Enghraifft o hyn yw'r drefn o ystyried effeithiolrwydd pob ardal weithgaredd yn ei thro. Mae hyn wedi arwain at welliannau o ran lleoli a threfniadaeth yr ardal chwarae rôl. Mae'r drefn newydd yn denu mwy o blant i chwarae'n gydweithredol ac i ddefnyddio eu medrau dysgu.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn cynnig darlun cytbwys o'r ddarpariaeth. Mae'r cynllun datblygu sy'n deillio o hyn yn adnabod meysydd addas ar gyfer gwelliant. Mae'n nodi meini prawf llwyddiant priodol, cyfrifoldebau unigolion a'r camau i'w cymryd. Er hyn, nid oes cyswllt digonol gyda deilliannau'r hunan arfarnu trwy osod targedau clir ar gyfer meysydd i'w gwella megis yr angen i ddatblygu medrau llafar Cymraeg y plant ymhellach.

Mae cymorth ac arweiniad yr athrawes gyswllt yn cefnogi'r ymarferwyr yn dda i ymgymryd â syniadau a dulliau newydd o weithio. Mae hyn i'w weld yn y ffofws ar hybu medrau rhif y plant a'r defnydd pwrpasol o offer newydd i gynorthwyo'r dysgu a'r addysgu.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad nifer o bartneriaethau strategol sydd yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd y ddarpariaeth a datblygiad plant.

Mae perthynas dda rhwng y lleoliad a'r rhieni a chadarnhawyd hyn yn y sgysiau yn ystod yr arolygiad. Mae llyfrynnau, polisïau, cylchlythyron a'r hysbysfwrdd yn darparu gwybodaeth berthnasol iddynt. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i drafod ar ddechrau a diwedd pob sesiwn.

Mae partneriaeth gref gyda'r pwyllgor rheoli ac mae'r ymarferwyr a'r aelodau yn rhannu'r un nodau o ran datblygiad pellach y lleoliad. Mae'r bartneriaeth adeiladol gyda swyddogion yr Awdurdod Lleol a Mudiad Meithrin yn cynorthwyo gwaith y lleoliad yn bwrpasol trwy ddarparu hyfforddiant a chynghor.

Mae'r lleoliad yn elwa o'r cysylltiadau gyda'r gymuned, yn arbennig y cysylltiadau da gyda busnesau lleol. Mae hyn yn sicrhau cefnogaeth effeithiol i ymdrechion y lleoliad i godi arian er mwyn ychwanegu at y cyflenwad o adnoddau.

Mae cysylltiadau cadarnhaol gyda'r ysgol gynradd yn cynnwys cyfleoedd da i'r ymarferwyr a'r plant ddefnyddio'r adnoddau dysgu ar safle'r ysgol. Mae hyn yn hyrwyddo trosglwyddo esmwyth i'r plant i gam nesaf eu haddysg.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Caiff adnoddau eu rheoli'n effeithiol. Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol a gwneir defnydd adeiladol o amser a medrau'r ymarferwyr. Mae ystod addas o adnoddau dysgu a gwneir defnydd llawn ohonynt.

Mae'r ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant buddiol ar ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac ar agweddau ar ddatblygiad plant. Mae effaith gadarnhaol yr hyfforddiant i'w weld ar ansawdd y profiadau megis gweithgareddau i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd cynnar y plant. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd addas o'r diwrnodau hyfforddiant i rannu profiadau ac arfer dda gyda lleoliadau eraill.

Mae gan yr arweinydd a'r trysorydd ddealltwriaeth sicr o'r gyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn briodol yn ôl anghenion y lleoliad.

Gan ystyried ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a gynigir, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## **Atodiad 1**

### **Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

### **Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

Dorothy Morris	Arolygydd Cofnodol
----------------	--------------------

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

## Rhestr termau

<b>AGGCC</b>	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
<b>Athro ymgynghorol awdurdod lleol</b>	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
<b>Y Cyfnod Sylfaen</b>	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
<b>Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)</b>	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
<b>Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)</b>	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
<b>Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)</b>	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
<b>Meysydd Dysgu</b>	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</li> <li>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu</li> <li>• datblygiad mathemategol</li> <li>• datblygu'r Gymraeg</li> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</li> <li>• datblygiad corfforol</li> <li>• datblygiad creadigol</li> </ul>
<b>Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)</b>	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

<b>Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)</b>	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
<b>Mudiad Meithrin</b>	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.